# Cofnodion

## Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 18 Chwefror 2021 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr C Ferris, M Whitcutt, P Hourahine, J Hughes, J Clarke, T Watkins, K Thomas, M Evans and C Evans |
| Yn bresennol: | E. Howard (Swyddog Llywodraethu), A. Jenkins (Swyddog Llywodraethu), G. Price (Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio) |

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cafodd y Cofnodion o 22 Hydref eu derbyn yn gofnod cywir yn amodol ar y canlynol:

Eitem 4 Adroddiad Blynyddol gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Y llythyren gyntaf ar gyfer y Cynghorydd M Evans a C Evans yn cael eu heithrio. Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd M Evans i'r frawddeg gael ei newid i 'Ef' a wnaeth sylwadau yn lle 'nhw'.

Cyfeiriodd y Cynghorydd K Thomas at y rôl a wnawn ac roedd am i'r frawddeg gael ei dileu ar dudalen 6, ail baragraff. I egluro, gofynnodd y Cynghorydd K Thomas pam y mae gwaith y cyngor yn cael ei gynnal yn wahanol, nid pam nad oedd cynghorwyr yn gwneud eu rôl.

Materion yn Codi

Eitem 4 Adroddiad Blynyddol gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Gofynnodd y Pwyllgor ynghylch paragraff 2, tudalen 4 ac a oedd y swyddi wedi'u llenwi. Roedd y swydd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac un swydd Cynghorydd Craffu yn cael eu hail-hysbysebu. Roedd y dyddiad cau ar ddiwedd mis Chwefror 2021 a byddai'r gwaith o greu rhestr fer yn cael ei chynnal maes o law.

Eitem 6 Unrhyw Faterion i'w Trafod gyda'r Panel Cyflog Annibynnol (PCA)

Ynghylch tudalen 8, mae'r Pwyllgor yn rhoi gwybod am adborth Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio yr ystyriwyd yn fanylach ar y rhwystrau i bobl rhag dod yn gynghorydd. Dywedwyd y byddai'n cael ei nodi i'w fwydo'n ôl i'r PCA, ond ni chafodd hyn ei gofnodi i'w weithredu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Cododd y Cadeirydd y pwynt hwn ac roedd y Panel Cyflog Annibynnol (PCA) wedi gwrando ar y pwynt hwn ar sail statudol ac roedd Lloegr a'r Alban yn genfigennus o Fodel Cymru a oedd yn defnyddio'r Model fel esiampl.

Dywedodd y Cadeirydd fod y mater yn fawr ar gyfarfod Zoom yn ddiweddar a bod y Panel Cyflog Annibynnol yn gobeithio mentora'r cynghorwyr hynny a bod rhai cynghorau'n mentora ymgeiswyr.

Awgrymodd y Cynghorydd Hughes y dylai rhai o'r cynghorwyr hŷn fod yn fentoriaid ac y dylai cynghorwyr mwy newydd gael eu cyfeillio â chynghorwyr newydd.

Cytunodd y Cynghorydd Whitcutt â'r pwynt uchod a ddylai, yn ei farn ef, gyd-fynd â Deddf Llywodraeth Leol Cymru Newydd ac y dylid bwydo hyn i mewn i'r drafodaeth yn ogystal â bod yn drafodaeth ar wahân.

Roedd y Cynghorydd K Thomas o'r farn y byddai hyn yn cael sylw yng nghanllawiau’r Ddeddf newydd a byddai cynghorwyr yn ystyried hyn yn ystod y cyfnod sefydlu.

Cyfarfu'r Cynghorydd Hourahine â Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn Llywodraeth Cymru ynghylch adborth ar hyfforddiant Cynghorwyr, a oedd, yn ei farn ef, yn eithaf da, ond ni chafodd Cynghorwyr adborth cyffredinol ar hyn.

Awgrymodd y Cynghorwyr J Hughes fod lle i ymchwilio i hyn ac roedd yn iawn i'r Cyngor gynnwys hyn fel rhan o'r broses ddemocrataidd i ddenu'r math cywir o ymgeiswyr, yn enwedig mewn dinas mor amrywiol.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod y ddeddfwriaeth bresennol yn narpariaethau Mesur Cymru (2011) ar waith i annog mwy o bobl i ddod ymlaen. Rhan o'r drafodaeth hon oedd rhoi gwybod i bobl sut beth oedd bod yn gynghorydd a'r cyfrifoldebau. Roedd gan y grwpiau a'r pleidiau gwleidyddol gyfrifoldeb hefyd i ddenu'r math cywir o ymgeiswyr.

Cytunodd y Cynghorydd C Evans â Phennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio a dywedodd fod y mater yn dod gyda'r system ddwy blaid ac roedd yn synhwyrol edrych ar bethau fel yr oeddent. Awgrymwyd y dylid cynnal archwiliad o sefyllfa'r cyngor y dylai’r cyngor weld o hyn pa mor amrywiol oedd a ble yr hoffai'r pleidiau fod erbyn yr etholiad nesaf. Gallai cytundeb rhwng y prif bleidiau ynghylch meini prawf dethol penodol fod yn seiliedig ar ddenu grwpiau amrywiol, o ran ethnigrwydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac anableddau cudd.

Awgrymodd y Cynghorydd Whitcutt ei fod yn fater cymdeithasol ym mhob ardal a'r hyn oedd ei angen oedd dull cydgysylltiedig, fel cynnwys Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb. Roedd angen sicrhau y gallwn ddefnyddio adnodd gwerthfawr fel cymdeithas ac nad oedd a wnelo hyn ddim â chefndir ond gallai rhai materion osod rhwystrau cymdeithasol.

Sylwodd y Cynghorydd K Thomas fod diffyg amlwg gan mai dim ond 30% o aelodau etholedig sy'n fenywod a bod oedran yn broblem hefyd. Dim ond drwy bob plaid yn canfasio yn unol â'i pholisïau y gellid mynd i'r afael â hyn. Roedd angen tynnu sylw ato a gallai'r etholwyr benderfynu a oeddent yn adlewyrchu eu barn. Nid oedd archwiliad yn ateb mewn gwirionedd ac yn hytrach dylai fod yn gyfrifoldeb i bob grŵp gwleidyddol yr oedd angen iddo fynd o ddifrif ar sut i fynd i'r afael â hyn.

Awgrymodd y Cynghorydd C Evans y dylai pleidiau neu'r cyngor gytuno ar ffordd o ddenu'r bobl iawn drwy grwpiau llwybr carlam fel cyngor ieuenctid. Gallai map ffordd ar waith edrych ar y sefyllfa/tueddiadau presennol a lle'r oeddem am fod fel cyngor o safbwynt anwleidyddol.

Awgrymodd y Cynghorydd Hourahine y dylid ychwanegu hyn at agenda yn y dyfodol fel eitem i'w thrafod ymhellach.

3 **Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog**

Cyfarfod y Cyngor ar 26 Ionawr 2021 wedi penderfynu bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
yn adolygu effeithiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog ynghyd â chynllun gwaith y pwyllgor dan sylw o fewn ei adroddiadau arferol i'r Cyngor llawn.

Roedd y Cynghorydd P Hourahine o'r farn mai adroddiad dwy ran ydoedd, h.y. bod y cynnig a Deddf Llywodraeth Leol (LlL) Cymru 2021, yn bethau cwbl ar wahân.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Pwyllgor yn fodlon â chyfnod Hawl i Holi a'i gysylltu â fframwaith Deddf LlL Cymru neu a ddylid ei newid ar lefel leol.

Roedd y Cynghorydd M Evans o'r farn y dylid ei newid ar lefel leol er mwyn caniatáu i aelodau mainc gefn ofyn cwestiynau yn ogystal â chynnwys cyfranogiad y cyhoedd gan fod hyn yn annog democratiaeth, felly roedd yn ddelfrydol gwneud argymhelliad yn y cyfarfod hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Whitcutt fod angen edrych ar y penderfyniad, a oedd yn cynghori bod y Pwyllgor wedi adolygu bwriad y penderfyniad, felly dylid eu hadolygu gyda'i gilydd yn yr un darn o waith ac ar yr un pryd.

Cytunodd y Cynghorydd T Watkins â'r Cynghorydd Whitcutt i'r Pwyllgor edrych ar Ddeddf LlL 2021 a Chwestiynau i'r Arweinydd.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y byddai'r Ddeddf Newydd yn dod i rym fesul cam ac y byddai'n derbyn canllawiau ar wahanol agweddau fel y nodwyd. Roedd angen adolygu'r rheolau sefydlog yn gyffredinol oherwydd y newidiadau a ddaw. O ganlyniad i ddeddfwriaeth, gallai'r Pwyllgor gyfarfod yn amlach i drafod y newidiadau hyn mewn deddfwriaeth, felly cadarnhawyd bod angen edrych ar hyn yn ei gyfanrwydd.

Credai'r Cynghorydd C Evans ei fod yn gyfle gwych i ddiwygio ac na fyddai'n cymryd llawer o amser ac yn cael effaith gadarnhaol. Felly, roedd angen ei integreiddio'n briodol yn y Rheolau Sefydlog ymhen ychydig fisoedd.

Roedd y Cynghorydd Hughes o'r farn ei fod yn fwy na mater unigol yn unig a bod angen i'r Pwyllgor wybod sut yr oedd yn gweithio yn y darlun ehangach ac edrych yn fanwl iawn a gyda'r newidiadau a oedd yn digwydd beth bynnag. Gallai hyn hefyd wella democratiaeth yng Nghasnewydd.

Myfyriodd y Cynghorydd Hourahine ar y broses Cwestiynau bresennol a dywedodd fod digon o gyfleoedd i gynghorwyr ddefnyddio'r fforwm cwestiynau agored. Egwyddorion arweiniol i gadeirio cyfarfodydd oedd bod yn fwy cryno. Felly, ni wnaeth ymestyn cwestiynau ddim i wella'r cyfarfod.

Ar nodyn ar wahân, ynglŷn â'r Ddeddf Newydd a phresenoldeb o bell, gallai'r Cynghorydd Hourahine weld sut y byddai'n gweithio mewn ardaloedd gwledig ond yn ddaearyddol, nid oedd yn briodol i Gasnewydd ac roedd o'r farn bod cyfarfodydd o bell yn dad-ddynoli cynghorau.

Cytunodd y Cadeirydd â'r sylwadau diwethaf ynglŷn â'r cyfarfodydd rhithwir, yn enwedig yn yr hinsawdd sydd ohoni.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Evans at ymestyn 15 munud i Gwestiynau i'r Arweinydd ac roedd o'r farn y byddai'n ddelfrydol gwneud argymhelliad i newid hyn yn y cyfarfod heddiw. Fodd

bynnag, roedd y Cynghorydd M Evans yn siomedig y byddai'r mater hwn yn cael ei ohirio tan y Nadolig ac y byddai'n well ganddo wneud y newid ar unwaith.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Clarke at y canllawiau a phan ddaethant i gyd allan, byddai'n well mynd i'r afael â hwy gyda'i gilydd.

Soniodd y Cynghorydd Whitcutt fod penderfyniad y cyngor wedi egluro'n iawn yr hyn a roddwyd gerbron y Pwyllgor. Y cwestiwn oedd yr hyn yr oedd y cyngor wedi'i benderfynu a bu'n rhaid iddo ei ystyried yn y cyd-destun hwnnw, felly symudodd y Cynghorydd Whitcutt fod y Pwyllgor wedi derbyn y cyfarwyddiadau gan y cyngor ac ystyried yr holl faterion hyn fel rhan o'r un ymarfer. Eiliodd y Cynghorydd T Watkins hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd M Evans beth fyddai'r amserlenni mewn perthynas â'r Ddeddf Newydd. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y byddai'r cyngor yn aros am ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd, fodd bynnag, gellid gwneud gwaith ymchwil cefndirol ar faint o gynghorau a gynhaliodd gyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, ni ellid gwneud unrhyw benderfyniad ar ymgysylltu â'r cyhoedd nes i ddeisebau cyhoeddus gael eu hystyried hefyd, a oedd yn drefniant anffurfiol gyda'r cyngor. Defnyddiwyd E-Ddeisebau mewn cynghorau eraill, gyda nifer penodol o lofnodwyr, yna gellid trafod hyn yn y cyngor. Felly, ailadroddwyd y dylid aros i weld y ddeddfwriaeth newydd. Byddai'r canllawiau'n statudol ac yn amserlen ar sut i weithredu hyn.

**Argymhellir:**
Ystyriodd y Pwyllgor yr atgyfeiriad gan y Cyngor a phennu cwmpas yr adolygiad hwn a sut y dylid ei gynnal. Felly, ystyriodd y Pwyllgor beidio ag adolygu gweithrediad Rheol Sefydlog 4.2(b) nawr ond aros am ganllawiau pellach ar ofynion eraill Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) cyn cynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o'r Rheolau Sefydlog presennol.

4 **Fframwaith Cymwyseddau a Hyfforddiant Sefydlu**

Cyhoeddodd CLILC ddrafftiau diwygiedig o'r fframwaith cymwyseddau wedi'i ddiweddaru ar gyfer cynghorwyr a'r cwricwlwm ymsefydlu newydd ar gyfer aelodau yn dilyn etholiadau lleol Mai 2022. Diweddarwyd y ddau ers iddynt gael eu diwygio ddiwethaf yn 2017 i adlewyrchu'r newidiadau yn rolau aelodau a gofynion deddfwriaethol newydd. Cyflwynwyd y dogfennau drafft mewn cyfarfod o'r Aelodau Arweiniol a'r Swyddogion ar gyfer y Rhwydwaith Cymorth a Datblygu i Aelodau ar 2 Chwefror 2021, a fynychwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion Cymorth Llywodraethu. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y dogfennau drafft a llunio unrhyw sylwadau neu adolygiadau a awgrymir.

Roedd CLILC yn awyddus i gyflawni hyn drwy e-fodiwlau, a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor pan fyddai'n cael ei datblygu.

Yn dilyn y cyfarfod rhwydwaith, roedd y Cadeirydd o'r farn bod y fframwaith yn drylwyr ac yn synhwyrol.

Dywedodd y Cynghorydd K Thomas fod y fframwaith yn gynhwysfawr iawn o safbwynt cynghorydd a'i fod wedi gwella'n sylweddol ar y cyfan, gyda mwy o ymdrech a meddwl adeiladol yn cael eu rhoi yn y ddogfen a oedd yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Adleisiodd y Cynghorydd Hughes y sylwadau uchod gan ychwanegu ei bod yn ddefnyddiol i ddarpar ymgeiswyr weld y fframwaith. Fel cynghorydd newydd, y rôl bwysicaf oedd y Gwasanaethau Democrataidd ei hun a'r gwaith a'r gefnogaeth bwysig a roesant. O ran e-Ddysgu, efallai y bydd cynghorwyr y mae angen eu hwyluso, gan nad oes ganddynt ddyfeisiau, neu sydd ag anableddau, megis nam ar y golwg.

Cytunodd y Cynghorydd M Evans y dylai'r llwyfannau e-Ddysgu gael eu cynllunio'n gymharol syml ar gyfer Cynghorwyr. Roedd llawer iawn o wybodaeth a phe bai cynghorwyr yn cael eu

hannog i gael mynediad i'r rhain, gellid symleiddio modiwlau. Roedd 37 modiwl, a oedd yn ormod o lawer a dylid symleiddio'r rhain. Roedd yn well gan y Cynghorydd M Evans hefyd fynychu'r ganolfan ddinesig i gyfarfod â chynghorwyr mewn sesiynau hyfforddi.

Ategodd y Cynghorydd T Watkins y sylwadau uchod a soniodd am faterion cysylltedd mewn gwahanol ardaloedd yng Nghasnewydd. Roedd maint yr hyfforddiant yn sylweddol ac awgrymodd fod cynghorwyr presennol yn cyfeillio gyda chynghorwyr newydd i roi cymorth.

Soniodd y Cadeirydd na ddylai llythrennedd TG fod yn ofyniad, gan efallai na fydd rhai pobl yn defnyddio cyfrifiaduron ond eu bod yn huawdl o hyd ac yn gweithio'n galed i'w cymuned.

Roedd y Cynghorydd C Evans o'r farn na ddylai'r rôl fod yn gyfyngol a bod gan rai cynghorwyr rwydweithiau da, hyd yn oed y rhai na allent ddarllen nac ysgrifennu. Felly, nid oedd y Cynghorydd am weld hyn yn orfodol a theimlai fod cyswllt wyneb yn wyneb hefyd yn bwysig gan ychwanegu na ddylid eithrio pobl sy'n dewis peidio â defnyddio TG. Mater i'r etholwyr felly oedd pleidleisio'r bobl hyn i'r cyngor.

Awgrymodd y Cynghorydd Whitcutt y dylid lleihau'r modiwlau i fodiwlau craidd ynghyd â chynnal asesiad i nodi'r pethau sylfaenol yr oedd yn ofynnol iddynt fod yn gynghorydd cymwys, ac yna arfer gorau i ymgymryd â modiwlau pellach.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio nad oedd y rhesymau dros y modiwlau i fod yn feichus. Nid oedd pob modiwl yn orfodol ac roedd hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion y cynghorwyr. Roedd y Cod Ymddygiad yn orfodol yn ogystal â hyfforddiant y Pwyllgor Trwyddedu a Chynllunio ac roedd gweddill y modiwlau yn wirfoddol ac yn ddewisol. Roedd y modiwlau i helpu aelodau yn eu rolau. O ran y sylwadau am lythrennedd TG, helpodd y Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd aelodau yn ystod y cyfnod ymsefydlu ar sut i gael gafael ar liniaduron ac e-byst. Unwaith eto, roedd hyn yn teilwra i'r unigolyn.

Roedd CLILC hefyd yn datblygu llwyfan generig nid yn unig ar gyfer e-Ddysgu ac roeddent yn cydnabod y byddai angen hyfforddiant ar lefel leol a modiwlau hyfforddi cyffredinol yn unig oedd y rhain fel cefndir i helpu i ddatblygu rôl cynghorwyr. Gellid cynnal gweithdai yn hytrach na hyfforddiant o bell os mai dyma oedd y dewis.

Dywedodd y Cynghorydd M Evans mai'r unig fater oedd rhoi adborth i CLILC y gallai rhai cynghorwyr deimlo bod rhaid cwblhau cymaint ag y gallent pe bai'n wynebu 37 modiwl sy'n berthnasol i bob cynghorydd ac roedd y modiwlau yn ormodol.

Ailadroddodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod CLILC wedi rhoi'r modiwlau ar waith i gwmpasu pob agwedd ar rôl cynghorydd, ond efallai na fydd angen yr hyfforddiant ar rai aelodau. Er enghraifft, pe na bai cynghorydd yn mynychu pwyllgor penodol yr oedd modiwl wedi'i gynnwys yn ei becyn hyfforddi, nid oedd angen i'r cynghorydd gwblhau'r modiwl perthnasol hwnnw.

Soniodd y Cynghorydd K Thomas fod rôl cynghorydd yn swydd anodd iawn, felly byddai meysydd y gellid gwella arnynt drwy'r modiwlau hyfforddi hyn ac y byddai'n galluogi cynghorwyr i wella eu rôl.

Awgrymodd y Cynghorydd C Evans fod angen cael hyfforddiant gorfodol, ond gellid ystyried y cynghorwyr hynny nad ydynt mewn rolau sylweddol a gellid rhannu modiwlau mewn categorïau cynhwysfawr.

Dywedodd y Cynghorydd Whitcutt y dylai hyfforddiant fod yn benodol a bod hyn wedi gwella'n fawr dros yr 20 mlynedd diwethaf. Roedd CLILC yno i helpu i beidio â rhwystro cynghorwyr a'r modiwlau a gynhyrchwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru oedd helpu i gefnogi aelodau.

Roedd y Cynghorydd Hourahine o'r farn bod gwahaniaeth rhwng hyfforddiant gorfodol a dewisol a hyfforddiant ansoddol.  Roedd angen hyfforddiant mwy mesuradwy a dylai swyddogion fod yn darparu'r cymorth i gynghorwyr.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio nad oedd y fframwaith yn rhagnodol ac y gallai'r cyngor ddatblygu ei raglen sefydlu ei hun. Pe bai cynghorwyr felly'n rhoi adborth i'r cyngor, gallem deilwra'r hyfforddiant i'w hanghenion.  Ni fyddai unrhyw oblygiadau o ran costau gyda hyfforddiant mewnol fel y Cod Ymddygiad, Llywodraethu a Hyfforddiant Craffu. Heblaw’r pwyllgor Trwyddedu a Chynllunio, a gwmpaswyd o dan y gyllideb hyfforddi.

**Argymhelliad:**
Bod y Pwyllgor yn ystyried y Fframwaith Cymwyseddau drafft a'r Cwricwlwm Sefydlu ar gyfer Aelodau yn dilyn etholiadau lleol Mai 2022 ac y byddai'n darparu'r sylwadau uchod ac yn awgrymu diwygiadau fel y trafodwyd.

5 **Datblygu Llawlyfr Democratiaeth**

Er gwybodaeth, roedd CLILC wedi nodi cyfle i ailedrych ar yr holl ganllawiau presennol ar ddemocratiaeth leol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ffurfio Llawlyfr Democratiaeth. Wrth i gynghorau weithredu mewn gwahanol ffyrdd, ategwyd gwybodaeth CLILC ar lefel leol.  Y gofyniad yn y Ddeddf Newydd oedd canllaw cryno i'r cyfansoddiad a sut y gallai'r llawlyfr gyd-fynd â hyn.  Byddai canllaw rhy syml yn ddefnyddiol ar sut roedd y llywodraethu mewnol yn gweithio.

Roedd digwyddiadau'n cael eu cynnal dros fis Chwefror a mis Mawrth i dynnu sylw at y canllawiau.

6 **Rhaglen Waith Ddrafft**

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod y rhaglen waith yn cwmpasu'n fras y 12 mis nesaf sy'n cyfateb i'r Ddeddf Newydd.  Roedd cyfarfodydd o bell yn ymwneud mwy â darparu mynediad o bell os na allai cynghorwyr fod yn bresennol.  Byddai cyfarfodydd hybrid yn mynd i'r afael â hyn lle gallai aelodau fynychu siambr y cyngor a/neu fynychu o bell.

Cafwyd Cronfa Democratiaeth Ddigidol gan Lywodraeth Cymru a byddai'r cyngor yn gwneud cais am tua £50,000 i ddatblygu'r cyfarfodydd hybrid.

Roedd y Cynghorydd Hourahine o'r farn bod y protocol yn flaenoriaeth i'r rhai a oedd yn bresennol a'r rhai a fynychodd o bell i gael eu gwahodd i siarad yn deg.

Cyfeiriodd y Cynghorydd K Thomas at y materion difrifol yr oedd wedi'u profi gyda'i band eang ac roedd yn gwerthfawrogi unrhyw gyngor TG.

Soniodd y Cynghorydd T Watkins fod pawb yn cael problemau technegol gyda chyfarfodydd o bell yn cyfeirio at Senedd Holyrood, a oedd â'i phroblemau ei hun.

Awgrymodd y Cynghorydd C Evans fod y cyngor yn talu am fand eang.  Soniodd Pennaeth y Gyfraith a rheoleiddio fod band eang y cyngor yn cael ei dynnu gan fod band eang rhai perchnogion cartrefi yn fwy na digonol i aelodau wneud eu gwaith.

Soniodd y Cynghorydd Whitcutt am rif ffôn wrth gefn i helpu i ymuno.  Byddai hyn yn cael ei ddarparu drwy Wasanaethau Democrataidd, y Tîm Digidol ac GRhR ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn a chyfarfodydd pwyllgor eraill.

7 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

29 Ebrill 2021 am 10am.

8 **Gweld Digwyddiad Byw**